## Atodiad 1

## Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru

| **Hysbysiad cydymffurfio drafft** | **Hysbysiad cydymffurfio terfynol** |
|---|---|
| Safon 145 & 146<br><br>Diwrnod gosod : 12 mis | **Peidio gosod y safonau.**<br><br>Nid yw'r safonau hyn yn cael eu gosod ar unrhyw un o'r pedwar CBC. Mae hynny am rhesymau canlynol:<br><br>Mae ardal ddaearyddol y CBC yn cynnwys ardal sy'n cael ei wasanaethu gan 4 awdurdod lleol sydd eisoes wedi mabwysiadu strategaethau hybu ac sydd eisoes wedi gosod targed ar gyfer cynyddu siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd.<br><br>Byddai gosod y safonau hyn ar y CBC yn dyblygu llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan yr awdurdodau lleol.<br><br>Mae risg y byddai unrhyw darged a osodir gan y CBC yn un artiffisial, ac y byddai'n gwrthdaro â thargedau yr awdurdodau lleol.<br><br>Nid yw hyd a lled cyfrifoldebau'r cyd-bwyllgorau yn hysbys ar hyn o bryd. Nid yw'n eglur a yw rôl a chyfrifoldebau'r cyd-bwyllgorau yn ymestyn i faterion fyddai'n eu galluogi i fynd i'r afael â materion sydd yn cyfrannu at greu siaradwyr Cymraeg, a thuag at hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Bydd yn bosib ail ymweld â'r mater hwn yn y dyfodol pe bai'n ymddangos fod rôl i'r cyd-bwyllgorau yn hynny o beth. |

## Appendix 1

## South West Wales Corporate Joint Committee

| Draft compliance notice | Final compliance notice |
| --- | --- |
| Standard 145 & 146<br><br>Imposition date: 12 months | **Standards not to be imposed.**<br><br>These standards are not to be imposed on any of the four CBC's for the following reasons:<br><br>The geographical area of the CBC includes an area served by 4 local authorities who have already adopted promotion strategies and have already set a target for increasing Welsh speakers in their areas.<br><br>Imposing these standards on the CBC would duplicate much of the work already being done by the local authorities.<br><br>There is a risk that any target set by the CBC would be an artificial one and would conflict with local authority targets.<br><br>The full extent of the joint committees' responsibilities is currently unknown. It is unclear whether the role and responsibilities of the joint committees extends to issues that would enable them to address issues that contribute to the creation of Welsh speakers, and towards promoting and facilitating the use of Welsh. It will be possible to re-visit this issue in the future if there appeared to be a role for the joint committees in that regard. |